OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 930 (Cy.95) (C.63)

GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Y Gorchymyn hwn yw'r gorchymyn cychwyn cyntaf mewn cysylltiad â Deddf Iechyd 2009 ("y Ddeddf ").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym ar 1 Ebrill 2010 baragraffau penodol yn Atodlen 3 i'r Ddeddf sy'n cynnwys diwygiadau i ddarparu ar gyfer pwerau atal dros dro mewn perthynas â chyrff penodol GIG a chyrff eraill sy'n ymwneud ag iechyd (erthygl 2(a) i (c)).

NODYN YNGHYLCH GORCHMYNION CYCHWYN BLAENOROL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae amryw o ddarpariaethau'r Ddeddf wedi eu dwyn i rym mewn perthynas â Lloegr gan O.S. 2010/30 (p.5).

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 930 (W.95) (C.63)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Health Act 2009 (Commencement No. 1) (Wales) Order 2010

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order is the first commencement order for the Health Act 2009 ("the Act").

Article 2 brings into force on 1 April 2010 certain paragraphs of Schedule 3 to the Act which contain amendments to provide for powers of suspension in relation to certain NHS and other bodies concerned with health (article 2(a) to (c)).

NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

(This note is not part of the Order)

Various provisions of the Act have been brought into force in relation to England by S.I. 2010/30 (c.5).

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2010 Rhif 930 (Cy.95) (C.63)

GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2010

Gwnaed	*23 Mawrth 2010*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2010*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 40(2)(a) o Ddeddf Iechyd 2009(**1**).

Yn unol ag adran 40(13) o'r Ddeddf honno mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r Ysgrifennydd Gwladol.

Teitl a dehongli

1.–(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2010.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd 2009.

Y diwrnod penodedig - amryw

2. 1 Ebrill 2010 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym–

(a) paragraffau 14 i 17 o Atodlen 3 (penodiadau'r GIG a phenodiadau iechyd eraill: atal dros dro);

(b) paragraffau 18 ac 19 o Atodlen 3 ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â diwygiadau i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006; ac

(c) adran 19 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau yn Atodlen 3 y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) a (b).

(**1**) 2009 p.21.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 No. 930 (W.95) (C.63)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Health Act 2009 (Commencement No. 1) (Wales) Order 2010

Made	*23 March 2010*
Coming into force	*1 April 2010*

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by section 40(2)(a) of the Health Act 2009(**1**).

In accordance with section 40(13) of that Act the Welsh Ministers have consulted the Secretary of State.

Title and interpretation

1.–(1) The title of this Order is the Health Act 2009 (Commencement No. 1) (Wales) Order 2010.

(2) In this Order "the Act" ("*y Ddeddf*") means the Health Act 2009.

Appointed day-various

2. 1 April 2010 is the day appointed for the coming into force of the following provisions of the Act–

(a) paragraphs 14 to 17 of Schedule 3 (NHS and other health appointments: suspension);

(b) paragraphs 18 and 19 of Schedule 3 except in so far as they relate to amendments of the National Health Service (Wales) Act 2006; and

(c) section 19 in so far as it relates to the paragraphs of Schedule 3 referred to in paragraphs (a) and (b).

(**1**) 2009 c.21.

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

23 Mawrth 2010

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

23 March 2010

©Ⓟ Hawlfraint y Goron 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2010

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2010 Rhif 930 (Cy.95) (C.63)

GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Deddf Iechyd 2009 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2010

2010 No. 930 (W.95) (C.63)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The Health Act 2009 (Commencement No. 1) (Wales) Order 2010

£4.00

W673/04/10 ON